# Sut i ysgrifennu datganiad i'r wasg

Noson Allan
Night Out

## Isod mae cynllun syml ar gyfer datganiad i'r wasg:

Teitl: DATGANIAD I'R WASG

Isdeitl: **I'w ryddhau ar unwaith**

Yna i ddangos bod popeth isod yn rhan o'r stori, rhowch: **DECHRAU**

**Pennawd:** Dylai'r pennawd fod yn glir, clyfar a gafaelgar. Yn aml mae cyflythrennu'n gweithio'n dda.

**Paragraff cyntaf:** Hoeliwch eu sylw yn y llinellau cyntaf. Gwnewch yn siŵr fod eich prif newyddion yn y paragraff cyntaf – ni fydd llawer o olygyddion yn darllen y tu hwnt iddo. Dylai gynnwys pob agwedd ar y stori gan gynnwys: Pwy? Beth? Pryd? Pam? Sut?

**Ail baragraff:** Yma gallwch ehangu ar y stori. Cymerwch nad yw'r darllenydd yn gwybod dim am y digwyddiad. Cadwch eich brawddegau'n fyr. Osgowch iaith arbenigol neu acronymau. Defnyddiwch y disgrifiad o'r sioe a gawsoch gan y cwmni a chynhwyswch linell drawiadol neu ddwy o'r adolygiadau ar ei bosteri neu ei wefan. Bydd rhai perfformwyr yn cynnig sampl o ddatganiad i'r wasg i'w defnyddio.

**Trydydd paragraff:** Ceisiwch ychwanegu stori ychwanegol am eich grŵp neu rywbeth a ddigwyddodd mewn perfformiad blaenorol. Gallwch drafod eich cynulleidfa ac effaith sioeau byw arnynt. Soniwch am unrhyw wobrau a gafodd y sioe neu'r lleoedd eraill roedd y sioe wedi'i pherfformio.

Ychwanegwch ddyfyniad gennych chi neu aelod o'r gynulleidfa.

**Pedwerydd paragraff:** Gorffennwch gyda manylion llawnach y digwyddiad gan nodi eto: teitl, lleoliad, dyddiad, amser, pris tocynnau, cyswllt am docynnau a rhagor o wybodaeth.

Ac yna teipiwch - **DIWEDD**

### Nodyn i'r golygydd

Wedyn gallwch roi gwybodaeth gefndir am eich sefydliad dan y pennawd yma. Nid yw'n rhan o'r datganiad - gwybodaeth ychwanegol yn unig sydd yma. Efallai y bydd y golygydd yn eich ffonio i ofyn cwestiynau, felly cynhwyswch eich enw, eich rhif ffôn ac enw eich grŵp.

Gallai'r perfformwyr roi lluniau ichi i'w hanfon. Cofiwch sicrhau bob amser bod lluniau wedi'u labelu'n glir ag enw'r ffotograffydd a/neu'r perchennog. Gallwch hefyd anfon llun o'ch lleoliad a phobl yn eich grŵp.

## Cysylltiadau

Mae manylion cyswllt papurau newydd Cymru ar gael yma.

Mae manylion cyswllt gorsafoedd radio Cymru yma.